| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Ebrill 2013** |
| **Swyddog / Aelod Arwain:** | **y Cynghorydd David Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Angela Loftus (Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |
| **Teitl:** | **Y diweddaraf am gynigion am garchar newydd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Yn yr adroddiad, crynhoir cyhoeddiad diweddar y Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran polisi carchardai, a cheisir rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru i gadarnhau eto ei ymrwymiad i geisio cael carchar yng Ngogledd Cymru.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Diben yr adroddiad yw rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru i gadarnhau eto ei ymrwymiad i geisio cael carchar yng Ngogledd Cymru a chael cefnogaeth yr Aelodau i hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**1.** Bod yr Aelodau'n cytuno i gefnogi Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ei ymrwymiad i geisio cael carchar yng Ngogledd Cymru a chadarnhau'r cynigion a nodir ym mharagraff 4.12.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

4.1 Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cyfiawnder, Chris Grayling, ddatganiad gweinidogol ar 10 Ionawr 2013 ynglŷn â Rheoli Carchardai.

4.2 Dywedodd y Gweinidog y gallai carchardai modern ddarparu gwell gwasanaethau dalfa ac ailsefydlu yn fwy effeithlon na'r hen adeiladau carchar, gan ddyfynnu arbedion o Garchar Oakwood, carchar newydd sy'n darparu lleoedd a gwell gwasanaethau am lai na hanner cost gyfartalog lleoedd carchar presennol. Cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau felly i gau 6 charchar, gan gynnwys Amwythig, a chau 3 charchar arall yn rhannol.

4.3 Yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn costau sydd gan y datblygiadau newydd, ac y byddant yn ei gynhyrchu o'u cymharu â rhannau hŷn o'r ystâd carchardai, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i archwilio dichonolrwydd adeiladu carchar newydd gyda 2000 o leoedd neu ragor yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Llundain neu Ogledd Cymru. Hwn fyddai'r carchar mwyaf yn y DU.

4.4 Mae Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi lobïo am garchar yng Ngogledd Cymru ers 2007. Mae’r rhesymau dros hyn yn cynnwys:

- Buddion economaidd, sy’n sylweddol o ran cyflogaeth sefydlog a chadwyn gyflenwi sy’n ymdrin ag amrywiaeth o wasanaethau o addysg, iechyd, arlwyo a chynnal a chadw adeiladau.
- Gogledd Cymru yw’r unig ardal yn y DU heb garchar yn y rhanbarth.
- Sicrhau carchar sy’n destun darpariaeth Deddf yr Iaith Gymraeg, lle cedwir carcharorion o Ogledd Cymru mewn cyfleusterau lle gallant ddefnyddio eu mamiaith.
- Effeithlonrwydd i’r gwasanaethau cyhoeddus (cludo carcharorion a chostau cludo ac amser teithio i’r llys/carchar i wasanaethau rheoli troseddwyr/cyfreithiol)
- Gwella cyfraddau ailsefydlu a lleihau cyfraddau aildroseddu drwy alluogi cyswllt agosach rhwng teuluoedd a phroffesiynau cefnogi drwy wella mynediad at y carchar. Mae cadw teuluoedd gyda’i gilydd hefyd yn osgoi cost i wasanaethau cyhoeddus ac mae cydberthynas rhwng hyn â charchardai sy’n hygyrch i deuluoedd.

4.5 Bydd carchar yn y rhanbarth hefyd yn rhoi hwb i’r system Cyfiawnder Troseddol yn yr ardal (prawf, llysoedd etc.) gan greu swyddi yn y system gyfreithiol a system y llysoedd.

4.6 Gallai’r buddion economaidd fod yn sylweddol. Mewn gwaith i asesu effaith carchar sydd â 1500 o welyau, amcangyfrifwyd y gellid creu 1,165 o swyddi drwy gyflogaeth uniongyrchol yn y carchar ac yn anuniongyrchol drwy’r gadwyn gyflenwi. Byddai’r gwariant a fyddai’n mynd trwy garchar â 1,500 o welyau i’r gymuned ehangach tua £47m. Byddai dros hanner y swyddi newydd yn ardal uniongyrchol y lleoliad.

4.7 Mae Sir Ddinbych wedi gwneud cynnig o’r blaen i osod carchar newydd i Ogledd Cymru yn Fferm Greengates, wrth ymyl Parc Busnes Llanelwy, yn ôl yn 2008. Fodd bynnag, ar y pryd, roedd angen chwilio am safle addas i gyfleuster llai o faint, gyda digon o le i ryw 800 o garcharorion, nid 2000 fel sy’n cael ei gynnig bellach. Nid oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi manylion gofynion safle ar y pryd. Fodd bynnag, mae’n annhebygol y byddai tir sydd ar gael yn Fferm Greengates yn ddigon mawr ar gyfer carchar mwy o faint. Ystyrir hefyd na fyddai safle hen Ysbyty Dinbych yn safle priodol ar gyfer y math a’r maint o garchar sydd dan ystyriaeth. Mae’r hen ysbyty yn adeilad rhestredig gradd 2*, ac nid oes digon o dir ar weddill y safle i garchar o’r maint hwn. I godi carchar, byddai gofyn dymchwel yr holl adeiladau ar y safle’n llwyr a chodi adeilad mawr iawn a fyddai’n brin o ansawdd esthetig, gan effeithio’n niweidiol felly ar ardal Castell Dinbych. Byddai hefyd yn broblem oherwydd byddai’r castell yn edrych dros y carchar, gan gyfaddawdu diogelwch.

4.8 Mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi hysbysebu’r cyfle i’r holl Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth ac wedi cynnig helpu Cynghorau yng Ngogledd Cymru i weithio gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae penderfyniadau am leoliad carchardai yn rhai heb eu datganoli. Mae

Llywodraeth Cymru hefyd wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi Cynghorau Gogledd Cymru i geisio cael carchar yng Ngogledd Cymru.

4.9 Prif amcan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw lleihau cost yr ystâd carchardai. Mae maint yn chwarae rhan yn y gostyngiad costau. Ni fyddai carchar a gynlluniwyd i fodloni anghenion Gogledd Cymru yn unig yn ddigon mawr i fodloni meini prawf y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ni fyddai ganddo'r maint i leihau costau i'r lefel sy'n ofynnol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Felly pe byddai yng Ngogledd Cymru, byddai'n cael ei rannu gyda rhanbarthau cyfagos Lloegr.

4.10 Mae sicrhau carchar yn broses gystadleuol lle mae gwleidyddiaeth ac achos busnes cryf yn chwarae rhan yn y penderfyniad. Bydd llwyddiant y rhanbarth yn dibynnu ar sicrhau cefnogaeth wleidyddol gref ar draws y rhanbarth a gwneud "cynigiad busnes" deniadol sy'n bodloni nodau economaidd a pholisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

4.11 Er mwyn sicrhau'r buddion economaidd mwyaf posibl, y nod fydd datblygu carchar a fydd:

- Yn lleihau costau'n sylweddol o'i gymharu â'r ystâd gyfredol. Bydd gwerthoedd tir ac ansawdd a chystadleurwydd y gweithlu lleol yn chwarae rhan yn hyn
- Yn moderneiddio gwasanaethau mewnol i leihau aildroseddu
- Yn cynnig cysylltiadau rhagorol â system gludiant Gogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Yn cynnig cysylltiadau rhagorol â'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Yn mynd â gallu o Amwythig sy'n cynnwys carcharorion o Ganolbarth Cymru ac yn fodd o ryddhau gallu o garchardai eraill

**Camau Nesaf**

4.12 Mae Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol:

- Arddangos ymrwymiad gwleidyddol i fynd ar drywydd carchar i Ogledd Cymru
- Rhoi gwybod i bob awdurdod lleol am y cyfle i gael carchar yng Ngogledd Cymru
- Arddangos sensitifrwydd i fodloni amcanion polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (yn bennaf, lleihau costau a moderneiddio cyfleusterau sy'n galluogi gwell gwasanaethau i leihau aildroseddu)
- Bydd swyddogion o bob Cyngor yn cyfarfod â swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau manylion y meini prawf safle sy'n ofynnol i gynnal astudiaeth ddichonolrwydd ac asesu safleoedd posibl gan gynnwys amserlenni, ac i gael gwybodaeth bendant am boblogaethau carchar a'r categorïau y mae'n bwriadu eu cadw mewn safle posibl yng Ngogledd Cymru.
- Awdurdodi swyddogion i nodi safleoedd posibl yn seiliedig ar y meini prawf a ddarperir gan swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd swyddogion

o bob cyngor yn cyfarfod â'i gilydd i nodi safleoedd posibl a thrafod yr ewyllys gwleidyddol i hyrwyddo safleoedd, er mwyn i'r rhanbarth gynnig rhestr fer o safleoedd sy'n bodloni ei meini prawf i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

- Bydd Heddlu Gogledd Cymru'n llunio achos busnes sy'n nodi'r buddion i gymunedau Gogledd Cymru drwy allu dal troseddwyr o Ogledd Cymru mewn carchar yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn gofyn i swyddogion y Cyngor hwyluso cyswllt â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

4.13 Bydd Bwrdd Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru'n adolygu cynnydd yn rheolaidd ym mhob cyfarfod Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi gofyn i bob Cyngor yng Ngogledd Cymru gadarnhau ei gynigion a chefnogi'r Bwrdd drwy:

* Gyhoeddi datganiad i'r wasg yn croesawu'r cyfle i gystadlu am garchar i'w leoli yng Ngogledd Cymru

* Gohebu gyda Swyddfa Cymru, y Gweinidog Carchardai a Llywodraeth Cymru i groesawu'r cyhoeddiad ac i gynnig cymorth i leoli carchar yng Ngogledd Cymru.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Os bydd yng Ngogledd Cymru, gallai carchar newydd gyfrannu'n gadarnhaol at y flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- *Datblygu'r Economi Leol* – drwy greu swyddi uniongyrchol a chyflogaeth ategol gysylltiedig

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gostau ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd am y penderfyniad hwn? Dylai'r templed EqIA wedi'i gwblhau fod ynghlwm wrth yr adroddiad fel atodiad.**

7.1 Mae'r argymhelliad i gefnogi Bwrdd Arwain Gogledd Cymru i geisio cael carchar newydd yng Ngogledd Cymru wedi'i sgrinio ac ni ystyrir bod asesiad llawn o effaith ar gydraddoldeb yn ofynnol oherwydd ni fyddai'n arwain at wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth anghyfreithlon nac at ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r templed sgrinio wedi'i gwblhau ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

8.1 Trafodwyd y diweddariad mewn Sesiwn Wybodaeth Cabinet a Grŵp Ardal Aelod Dinbych.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau ar hyn o bryd cael eu cynnwys mewn cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Os nad yw'r Cyngor yn cytuno i gefnogi Bwrdd Arwain Gogledd Cymru, mentrir colli'r cyfle i gael carchar yng Ngogledd Cymru, gyda'i fuddion economaidd posibl.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000